GIG CYMRU NHS WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

COVID-19
Strategaeth Frechu ar gyfer 2022

Chwefror 2022

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 Llywodraeth Cymru WG44537

Cynnwys

3 Adran 1 – Rhagair y Gweinidog

4 Adran 2 – Trosolwg

6 Adran 3 – Ein blaenoriaethau nawr

13 Adran 4 – Ein blaenoriaethau ar gyfer y tymor hwy

15 Adran 5 – Cael yr wybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth ddibynadwy

ADRAN 1. Rhagair y Gweinidog

Mae misoedd cyntaf blwyddyn newydd yn amser da i adolygu'r hyn y mae ein rhaglen frechu COVID-19 lwyddiannus wedi'i gyflawni a'i chyfeiriad i'r dyfodol.

Cafodd bron i dri chwarter yr oedolion cymwys frechiad atgyfnerthu cyn y flwyddyn newydd, sy'n dangos yn glir yr hyder sydd gan bobl mewn brechu a'r rhaglen frechu yng Nghymru.

Wrth imi ysgrifennu hwn, mae tua 70% o bobl 12 oed a throsodd wedi cael brechiad atgyfnerthu neu drydydd dos ac mae'r ffigur hwn yn parhau i godi, wrth i bobl barhau i ddod drwy ddrysau clinigau ledled Cymru. Ac rydym yn dal i weld pobl yn dod i gael eu dos cyntaf a'u hail ddos hefyd. Nid yw fyth yn rhy hwyr i gael eich brechu yng Nghymru.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi dod ymlaen i gael eu brechu a gwneud y penderfyniad i ddiogelu eu hunain ac eraill. Hoffwn ddiolch hefyd i'r miloedd o bobl sy'n gweithio ar ein rhaglen frechu; staff llywodraeth leol a phobl o wasanaethau cyhoeddus eraill, busnesau, y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr, a aberthodd amser gyda'u teuluoedd dros y Nadolig er mwyn gwneud yn siŵr y gallem frechu cynifer o bobl â phosibl.

Rydych wedi bod yn wych – diolch o galon ichi.

O'r diwedd, gallwn edrych ymlaen at y dyfodol gyda rhywfaint o optimistiaeth. Ar ôl sawl wythnos anodd a phryderus, rydym wedi mynd heibio i frig ton Omicron a'r lefelau eithriadol o uchel o heintiau a welwyd dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae ein holl waith caled, a llwyddiant parhaus ein rhaglen frechu, wedi ein helpu drwy'r cyfnod heriol iawn hwn. O ganlyniad, mae'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn gwella.

Bydd ein rhaglen frechu yn parhau i gael ei llywio gan y dystiolaeth glinigol a gwyddonol ddiweddaraf a'r cyngor diweddaraf gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) a Phrif Swyddog Meddygol Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein cynlluniau ar gyfer 2022 a'r ffordd y byddwn unwaith eto yn cynyddu ein timau brechu i gapasiti ymchwydd, os bydd angen inni wneud hynny er mwyn ymateb i don newydd o'r pandemig neu amrywiolyn newydd o'r coronafeirws. Gobeithio na fydd angen inni gymryd y camau hyn ond mae'n ddoeth cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn i ni fod yn barod, rhag ofn.

Rydym wedi derbyn cyngor y JCVI y dylid cynnig brechiad i bob plentyn 5-11 oed. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r hyn y gall teuluoedd ei ddisgwyl a sut a ble y byddant yn mynd i gael y brechlyn os byddant yn penderfynu derbyn y cynnig. Yn y cyfamser, baswn yn annog teuluoedd i fynd i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael rhagor o wybodaeth a dechrau sgwrs am b'un a ddylent dderbyn y cynnig.

Rwyf hefyd wedi derbyn cyngor y JCVI ar gynnig brechiad atgyfnerthu yn y gwanwyn i'r bobl hynaf a'r mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Byddwn yn darparu mwy o fanylion am y ffordd y caiff hyn ei gyflwyno maes o law.

Mae GIG Cymru wedi darparu cymorth a gofal anhygoel dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig staff rheng flaen. Wrth inni barhau i lywio ein ffordd allan o'r pandemig, bydd angen i'r GIG ymateb yn brydlon ac yn effeithiol, fel y mae wedi gwneud drwy gydol yr amser, gan brofi ei fod yn ddigon ystwyth a hyblyg, yn ogystal â chael y gweithlu medrus a phrofiadol sydd ei angen, i wneud hynny.

Rydym yn parhau i gynghori pawb i dderbyn y cynnig o gael brechiad. Edrychwch ar wefan eich bwrdd iechyd i gael manylion.

Rydym wedi dod drwy'r storm hyd yma. Daliwn ati i ddiogelu Cymru gyda'n gilydd.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

ADRAN 2. Trosolwg

Wrth inni ddechrau 2022, mae sawl rheswm dros edrych ymlaen gyda rhywfaint o optimistiaeth. Mae nifer yr achosion o'r coronafeirws yn lleihau ledled Cymru; rydym wedi mynd heibio i frig ton Omicron a welwyd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac wedi dychwelyd i lefel rhybudd sero. Rydym bellach yn dechrau llacio rhai o'r mesurau amddiffynnol sylfaenol rydym wedi dod i'r arfer â byw gyda nhw.

Fodd bynnag, nid yw'r pandemig ar ben. Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa bob dydd ac yn adolygu rheoliadau'r coronafeirws bob tair wythnos. Cyn hir byddwn yn cyhoeddi cynllun pontio, a fydd yn nodi sut y byddwn yn rheoli'r pandemig y tu hwnt i lefel rhybudd sero a'r dull gweithredu mewn argyfwng rydym wedi bod yn ei ddilyn am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae brechu wedi cael effaith enfawr ar hynt y pandemig – mae brechlynnau wedi helpu i wanhau'r cysylltiad rhwng y feirws, salwch difrifol, derbyniadau i ysbytai a marwolaeth. Maent wedi achub bywydau di-rif yng Nghymru, y DU a ledled y byd. Maent wedi rhoi'r rhyddid a'r hyder inni ailddechrau ein bywydau yng nghanol argyfwng iechyd byd-eang parhaus.

Mae brechlynnau yn cael effeithiau uniongyrchol, er budd y rhai sy'n cael eu brechu, ac effeithiau anuniongyrchol, er budd y boblogaeth ehangach. Wrth i fwy o bobl gael eu brechu, mae'n llai tebygol y bydd pobl yn dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi'i heintio. Felly, mae'n bosibl bod effaith gyffredinol y rhaglen frechu yn ymestyn y tu hwnt i'r hyn a amcangyfrifwyd drwy ddadansoddiadau o effeithiolrwydd brechlynnau.

Erbyn canol mis Chwefror 2022, byddwn wedi rhoi mwy na 6.8 miliwn o ddosau o frechiadau COVID-19 yng Nghymru yn unig. Mae mwy na 91% o boblogaeth Cymru sydd dros 12 oed wedi'u brechu ag o leiaf un dos; 86% ag o leiaf ddau ddos a 70% â thrydydd dos a/neu frechlyn atgyfnerthu.[1] Mae'r ystadegau hyn yn rhai gwirioneddol drawiadol ar gyfer rhaglen a wnaeth ond dechrau ychydig dros flwyddyn yn ôl, ym mis Rhagfyr 2020. Mae ein rhaglen frechu yn un o'r rhaglenni sydd wedi'u cyflwyno gyflymaf yn y byd, gyda chyfraddau brechu uchel, yn enwedig ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed[2].

Ar y cyfan, mae nifer yr achosion o'r coronafeirws wedi lleihau ym mis Ionawr a mis Chwefror 2022, ond maent yn dal i fod yn gymharol uchel ledled Cymru. Mae nifer y bobl a dderbynnir i'r ysbyty ag achos o COVID-19 a gadarnhawyd neu a amheuir a'r rhai sydd yn yr ysbyty ag achos o COVID-19 a gadarnhawyd hefyd wedi lleihau, wrth i lefelau trosglwyddo yn y gymuned ostwng.

Mae data effeithiolrwydd go iawn wedi dangos yn gyson bod brechlynnau COVID-19 yn rhoi lefelau uchel o amddiffyniad rhag clefyd symptomatig ac, yn bwysicach na hynny, rhag canlyniadau clefyd difrifol megis cael eich derbyn i'r ysbyty a marwolaeth. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod effeithiolrwydd brechlynnau yn gwanhau dros amser; o ran amrywiolyn Omicron yn arbennig, amcangyfrifir bod effeithiolrwydd brechlynnau rhag clefyd symptomatig yn lleihau i rhwng sero a 10%, chwe mis ar ôl ail ddos. Mae hyn yn golygu bod cael brechlyn atgyfnerthu yn bwysicach fyth er mwyn sicrhau lefel ddigonol o amddiffyniad rhag amrywiolyn Omicron. Mae'r adroddiad gwyliadwriaeth brechlynnau COVID-19 mwyaf diweddar gan Asiantaeth Diogelu Iechyd y DU (UKHSA) wedi nodi bod tri dos o frechlyn rhwng 50% a 75% yn effeithiol o ran atal clefyd symptomatig COVID-19 ag amrywiolyn Omicron o fewn y tri mis cyntaf ar ôl

[1] Vaccinations in Wales | Coronavirus in the UK (data.gov.uk),
[2] Adroddiad sefyllfaol COVID-19: 4 Chwefror 2022 | LLYW.CYMRU

cael brechlyn atgyfnerthu a'u bod yn cynnig lefelau uwch o amddiffyniad rhag clefyd difrifol gan gynnwys cael eich derbyn i'r ysbyty a marwolaeth.

Dengys data UKHSA, mewn perthynas ag amrywiolyn Omicron, fod effeithiolrwydd brechlynnau rhag clefyd difrifol (lle mae unigolyn yn cael ei anfon i'r ysbyty) ar ôl rhoi'r brechiad atgyfnerthu i oedolion hŷn dros 65 oed yn ystod hydref 2021 tua 90% yn fuan ar ôl iddynt gael eu brechu, a bod hyn yn lleihau ychydig erbyn 10 i 14 wythnos. Yn achos amrywiolyn Delta, mae gwerthoedd cyfatebol yn uwch, sy'n adlewyrchu, yn ôl pob tebyg, wahaniaethau yn y cydweddiad rhwng brechlynnau sydd ar gael ar hyn o bryd a'r gwahanol amrywiolion. Ni ellir pennu ar yr adeg hon pa mor dda y mae unrhyw brif amrywiolyn newydd sy'n destun pryder yn cydweddu â brechlynnau sydd ar gael (presennol a newydd). Er nad ydynt yn rhai manwl, mae amcanestyniadau o ddata imiwnolegol yn awgrymu lefelau cymharol dda o amddiffyniad rhag clefyd difrifol gan y gellir disgwyl i'n prif amrywiolyn ar hyn o bryd, sef amrywiolyn Omicron, aros mewn pobl hŷn am rhwng 6 a 9 mis.

Wrth inni barhau i ddysgu mwy am y feirws, ei amrywiolion a pha mor effeithiol yw brechlynnau, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod rheoli'r feirws yn debygol o fod yn her hirdymor. Gyda hyder cynyddol ynghylch y cyflenwad o frechlynnau, gallwn bellach nodi ein huchelgeisiau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac, ar yr un pryd, fod yn ddigon hyblyg i ymateb i lwybr ansicr y pandemig yn y dyfodol. Rydym yn parhau i gael ein llywio gan y dystiolaeth glinigol a gwyddonol ddiweddaraf a chyngor gan y JCVI a Phrif Swyddog Meddygol Cymru. Mae eu cyngor hyd yma wedi bod yn ddefnyddiol iawn inni.

Mae'r strategaeth hon, unwaith eto , yn nodi'r canlynol:

- **Ein blaenoriaethau nawr** – rydym yn parhau i weithio tuag at y nod cyffredinol o roi brechlyn COVID-19, mor ddiogel a chyflym â phosibl, i gynifer o bobl ag y gallwn, gyda chyn lleied o wastraff â phosibl. Yn y ddogfen hon rydym wedi nodi ein huchelgeisiau o ran sut y byddwn yn cyflawni'r nod hwn.
- **Ein blaenoriaethau yn y dyfodol** – wrth inni symud tuag at ddyfodol mwy sefydlog y tu hwnt i'r ymateb i'r argyfwng, rydym yn cynllunio pa gamau y byddwn yn eu cymryd yn y dyfodol a sut mae brechlyn COVID-19 yn cyd-fynd â brechiadau eraill. Rydym hefyd yn awyddus i ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig lle y gwelsom arloesi ac arferion da.
- **Sut i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen frechu** – rydym yn ymrwymedig i barhau i ddarparu gwybodaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod ble y gallant y brechiad sy'n cael ei gynnig iddynt a bod pawb yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am beth ddaw nesaf yn y rhaglen frechu.

ADRAN 3. Ein blaenoriaethau nawr

Rydym yn parhau i gael ein llywio gan dystiolaeth wyddonol a chyngor arbenigol ac, felly, mae ein blaenoriaethau nawr yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol hyn:



Mae tabl wedi'i gynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon (Atodiad A) sy'n nodi pa grwpiau sydd yn gymwys i gael eu brechu a phryd.

Brechu'r rhai mwyaf agored i niwed

Er na allwn fod yn siŵr pa lwybr y bydd y feirws yn ei gymryd, rydym yn glir bod yn rhaid inni barhau i roi blaenoriaeth i frechu'r henoed, y rhai sy'n agored i newid a'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan fod pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur arnynt. Rydym eisoes wedi rhoi brechlyn atgyfnerthu i fwy na 90% o bobl dros 80 oed ac wedi cynnig brechiad atgyfnerthu i bob preswylydd mewn cartrefi gofal i'r henoed a chyfleuster iechyd meddwl diogel. Yn ddiweddar rhoddodd y JCVI gyngor pellach ar roi dos ychwanegol o frechlyn atgyfnerthu yn y gwanwyn i'r unigolion hyn, fel y nodir yn nes ymlaen yn y strategaeth.

Mae'r byrddau iechyd wedi rhoi dulliau gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael â'u heriau lleol a diwallu anghenion y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn eu cymunedau:

- Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn parhau i weithio gyda'u tîm tai a'u Tîm Imiwneiddio Cymunedol i estyn allan at bobl ddigartref i drefnu brechiad.
- Mae nyrs benodedig yn ardal Cwm Taf Morgannwg yn helpu gyda rhaglen frechu allgymorth mewn hostelau a llety gwely a brecwast.
- Mae sesiynau brechu pwrpasol yn cael eu cynnal ar gyfer grwpiau cymunedol penodol megis Ffoaduriaid o Syria a'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yng Ngogledd Cymru.
- Yng Nghasnewydd mae clinigau dros dro wedi'u cynnal yng Nghanolfan Mileniwm Pill a Community House Eton Road ac mae'r gymuned Roma wedi cael cymorth i gael brechiadau drwy Dîm Teithio Ymlaen.

Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn cynnig brechlyn atgyfnerthu cychwynnol i bobl agored iawn i niwed dros 12 oed, sydd â system imiwnedd wan iawn oherwydd eu salwch neu am eu bod yn cael triniaeth ar gyfer eu salwch. Cynghorodd y JCVI y grŵp hwn i gael trydydd prif ddos, ar yr adeg orau a nodwyd gan eu clinigydd, am fod brechlynnau a roddir ar adegau lle mae system imiwnedd yn wan iawn (lle y bo'n bosibl) yn fwy tebygol o arwain at well ymatebion imiwn. Yn yr un modd, mae amseriad eu brechlyn atgyfnerthu yn hanfodol er mwyn sicrhau mai eu hymateb i unrhyw haint COVID-19 a'u hamddiffyniad rhagddo yw'r un gorau posibl.

Rydym yn disgwyl i bawb sy'n gweithio gyda'n dinasyddion mwyaf agored i niwed gael eu brechu, megis cyflogeion yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol; gan ystyried mai hon yw eu dyletswydd broffesiynol oni fyddant wedi'u heithrio rhag cael eu brechu am resymau meddygol. Mae gan gyflogwyr rôl bwysig i'w chwarae o ran annog staff i gael eu brechu. Gall cyflogwyr helpu drwy hyrwyddo brechiadau a rhoi amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl i staff er mwyn iddynt allu mynd i apwyntiadau brechu. Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i annog pobl i gael eu brechu o'u gwirfodd a gwneud yn siŵr bod pobl yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad hyddysg ynghylch cael eu brechiad COVID-19.

Ein nod

- **Byddwn yn cynnig apwyntiad i bob unigolyn cymwys sydd â system imiwnedd wan iawn gael ei ddos atgyfnerthu, ar yr adeg orau a nodir gan eu clinigydd.**
- **Byddwn yn monitro nifer y staff rheng flaen yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael eu brechu, ac yn eu hannog i gael eu brechu.**

Peidio â gadael neb ar ôl

Mae brechiad ar gael i bawb sydd am gael un. Mae'r egwyddor hon yn dal i fod yn allweddol yn ein strategaeth frechu. Rydym yn monitro cyfraddau brechu a thueddiadau o ran brechu i weld a oes mwy y gallwn ei wneud. Er enghraifft, dengys y data fod y gyfradd frechu yn is ymhlith pobl iau ac mae gennym rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau bod hwn yn ddewis seiliedig ar wybodaeth ac nad yw i'w briodoli i ddiffyg mynediad at y brechlyn.

Ein Pwyllgor Brechu Teg sy'n gyfrifol am fonitro nifer y bobl sy'n cael brechlyn COVID-19 mewn grwpiau na chaiff eu gwasanaethu'n ddigonol, megis y rhai o gefndiroedd ethnig leiafrifol, pobl anabl a phobl sy'n byw mewn cartrefi dan anfantais economaidd neu sy'n profi amddifadedd mewn ffyrdd eraill. Mae'r pwyllgor yn cael ei lywio gan y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, gan gynnwys adroddiad gwyliadwriaeth misol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar nifer y bobl sy'n cael brechlynnau yn ôl rhyw, amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac ethnigrwydd[3]. Nododd yr adroddiad diweddaraf (8 Rhagfyr i 10 Ionawr) fod cyfraddau brechu yn amrywio rhwng grwpiau ethnig, gyda'r gyfradd isaf ar hyn o bryd yn cael ei chofnodi yn y grwpiau anhysbys, Du Affricanaidd, Du Caribïaidd a chymysg. Nododd y canlynol hefyd:

- Mae'r bylchau yn y gyfradd frechu ar gyfer dau ddos rhwng y grwpiau Asiaidd, cymysg ac ethnig arall a grwpiau ethnig Gwyn gyda'i gilydd wedi lleihau ychydig.
- Arhosodd y bylchau anghydraddoldeb rhwng y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru yn sefydlog neu gwnaethant

[3] Wales COVID-19 vaccination enhanced surveillance - equality report.pdf

leihau ychydig yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran, ond gwnaethant gynyddu yn y garfan 16-17 oed (fodd bynnag mae'r gyfradd frechu yn cynyddu ar hyn o bryd yn y grŵp oedran hwn).

- Ceir bylchau anghydraddoldeb sylweddol yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd yn y gyfradd frechu ar gyfer y dos atgyfnerthu yn y grwpiau oedran cymwys.
- Mae bylchau anghydraddoldeb yn y gyfradd frechu ar gyfer y dos atgyfnerthu yn y grwpiau oedran cymwys rhwng y rhai sy'n byw yn y cwintelau mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig o ardaloedd yng Nghymru wedi cau ymhlith oedolion hŷn ond maent wedi ehangu yn y grwpiau oedran iau.
- Mae'r gyfradd frechu ar adeg esgor ymhlith menywod beichiog sy'n esgor yn y mis diweddaraf wedi gwella'n sylweddol ond mae'n dal i fod yn is nag yn y boblogaeth yn gyffredinol. Dengys y data fod y gyfradd frechu yn cynyddu ymhlith menywod ar ôl iddynt esgor.

Effeithiodd COVID-19 ar grwpiau poblogaeth gwahanol yng Nghymru mewn ffyrdd gwahanol ac mae'r GIG wedi gweithio'n agos gyda grwpiau ac arweinwyr cymunedol gan ymateb i broblemau megis camwybodaeth am frechlynnau COVID-19 yn arwain at amharodrwydd i gael brechiad ymhlith rhai grwpiau o bobl. Gyda chymorth partneriaid, datblygwyd gwybodaeth ffeithiol er mwyn mynd i'r afael ag ofnau, cynhaliwyd gweminarau ac ymgysylltwyd ag arweinwyr cymunedol er mwyn helpu i gynyddu gwybodaeth a sicrhau bod brechlynnau yn cael eu derbyn. Rydym wedi gweld cryn dipyn o arloesi yn y ffordd y mae brechiadau yn cael eu cyflenwi o ddefnyddio canolfannau gyrru-i-mewn a chyfleusterau cerdded drwodd i glinigau symudol a dros dro mewn canolfannau siopa a chanolfannau ffydd. Mae byrddau iechyd yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid a lleisiau cymunedol er mwyn annog y rhai nad ydynt wedi derbyn y cynnig o frechiad eto i ddod ymlaen.

Unwaith eto, mae'r byrddau iechyd yn mynd i mewn i gymunedau er mwyn sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i bobl gael eu brechu mor agos i'w cartref â phosibl.

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydgysylltu gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu megis digwyddiadau i gymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol mewn partneriaeth â Fforwm Cydlyniant Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru ac yn defnyddio cerbydau cyflenwi brechiadau symudol i dargedu ardaloedd megis parciau busnes diwydiannol, archfarchnadoedd, hostelau a chymunedau dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector a thimau cydlyniant cymunedol i hyrwyddo Llinell Gymorth Amlieithog EYST Cymru, sef gwasanaeth am ddim i bawb dros 18 oed sy'n byw yng Nghymru sy'n ystyried eu bod yn perthyn i gymunedau Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Mae'r llinell gymorth yn darparu gwybodaeth am nifer o faterion megis addysg, iechyd, gan gynnwys brechu a thai ac yn cyfeirio unigolion at wasanaethau perthnasol.

- O ystyried natur wledig y sir, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi galluogi pobl i gael mynediad i'w brechlyn gyda chymorth gan sefydliadau fel Cludiant Cymunedol.

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn mynd â'r gwasanaeth brechu allan i gymunedau lleol drwy leoli 'cynwysyddion' sy'n gweithredu fel clinigau brechu symudol mewn lleoedd megis parciau archfarchnadoedd a chanolfannau cymunedol.

Yn genedlaethol, rydym yn cefnogi menter ymgysylltu lle bydd ‘timau stryd’ yn mynd i gymunedau i sôn wrth bobl y maent yn cyfarfod â nhw mewn mannau cyhoeddus am frechiad COVID-19. Byddant yn darparu gwybodaeth ffeithiol ac yn ateb cwestiynau am y brechiad a'r ffordd y mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno. Y nod yw mynd i'r afael â pheth o’r gamwybodaeth a all fod ar led mewn cymunedau, er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu brechu a lleihau bylchau o ran tegwch cyfraddau brechu. Bydd hyn yn ein galluogi i glywed adborth uniongyrchol ar y materion sy'n achosi'r pryder mwyaf i rai o'n cymunedau amlddiwylliannol a chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol.

O ganlyniad i'r ymdrechion hyn i gyrraedd grwpiau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol, rydym yn parhau i weld pobl yn dod ymlaen i gael eu dos cyntaf a'u hail ddos; pobl sydd wedi newid eu meddwl neu sydd bellach yn llai amharod i gael eu brechu ar ôl cael gwybodaeth a sicrwydd gan ffynonellau dibynadwy.

Ein nod

- **Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymunedau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol er mwyn ailgadarnhau'r cynnig o gael brechiad COVID-19.**

- **Gan weithio gyda byrddau iechyd, sefydliadu partner, lleisiau cymunedol a'r rhai â phrofiadau go iawn, byddwn yn rhoi rhagor o ymyriadau ar waith er mwyn cau'r bylchau o ran tegwch mewn cyfraddau brechu yng Nghymru ar gyfer pob grŵp oedran.**

Brechiad atgyfnerthu

Cyfllymwyd ein rhaglen atgyfnerthu er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl gymwys yn cael eu brechu mor ddiogel a chyflym â phosibl yn ystod mis Rhagfyr a dros y Nadolig cyn i don Omicron gyrraedd, er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag clefyd difrifol a'r risg o orfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Mewn ymateb, daeth degau o filoedd o bobl i gael eu brechu.

Hyd yma, rydym wedi rhoi'r brechlyn atgyfnerthu neu'r trydydd dos i 70% o'r boblogaeth 12 oed a throsodd. Mae'r gyfradd frechu yn uchel iawn ond mae pobl o hyd sydd wedi cael eu prif ddosau nad ydynt wedi dod ymlaen i gael eu brechlyn atgyfnerthu.

Mae'r mwyafrif helaeth o frechlynnau atgyfnerthu wedi'u cyflenwi drwy ein canolfannau brechu. Mae'r model cyflenwi hwn yn effeithiol iawn a chafodd nifer enfawr o bobl eu brechu. Fodd bynnag, gwyddom o gamau cynharach yn yr ymgyrch frechu fod rhai pobl a rhai ardaloedd yn cael budd o glinigau brechu pwrpasol. Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am eu hardal leol ac am gynnig clinigau pwrpasol i bob cymuned yn eu hardal.

Trefnodd y byrddau iechyd bod y canolfannau brechu torfol yn agored yn hwyr fin nos a dros y Sul. Ceir canolfannau galw i mewn ledled Cymru. Mae’r byrddau iechyd wedi sefydlu cynlluniau cludiant cymunedol er mwyn i bobl allu cyrraedd y canolfannau heb unrhyw gost. Mae'n anochel y bydd y newidiadau a wnaethant, ac y maent yn parhau i'w gwneud, i'w modelau cyflenwi er mwyn mynd i'r afael â'r annhegwch o ran brechu, hefyd yn cynyddu nifer y bobl sy'n cael y brechlyn atgyfnerthu.

Mae'r JCVI bellach wedi argymell y dylid rhoi brechiad atgyfnerthu i bobl dros 75 oed, preswylwyr cartrefi gofal i oedolion hŷn ac unigolion dros 12 oed sydd â system imiwnedd wan iawn (fel y’i diffinnir yn y llyfr gwyrdd). Bydd llawer o'r oedolion hynaf, ac felly y mwyaf agored i niwed, wedi cael eu dos diweddaraf fis Medi neu fis Hydref 2021. Mae'r bobl hyn yn wynebu risg uwch o gael salwch difrifol yn sgil COVID-19 ac, wrth i amser fynd heibio, mae'n bosibl y bydd yr imiwnedd a gawsant o’r brechiad yn lleihau cyn unrhyw raglen hydref arall. Felly, fel strategaeth ragofalus ar gyfer 2022, mae'r JCVI yn argymell y dylid rhoi dos

i'r unigolion hyn yn y gwanwyn, tua chwe mis ar ôl eu dos blaenorol. Rydym eisoes yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i gynllunio ar gyfer hyn a bydd manylion pellach ar gael maes o law.

Ein nod

- **Byddwn yn cynnig ail ddos atgyfnerthu yn y gwanwyn i bob unigolyn cymwys dros 75 oed, preswylwyr cartrefi gofal i bobl hŷn ac unigolion dros 12 oed sydd â system imiwnedd wan iawn, yn unol â chyngor y JCVI a'r llyfr gwyrdd.**

Brechu plant a phobl ifanc

Yn ystod ychydig fisoedd cyntaf 2022, canolbwyntiwyd ar gynnig brechiad i blant a phobl ifanc sydd wedi colli cymaint o'u haddysg a chyfleoedd mewn bywyd.

Mae byrddau iechyd wedi gwneud cynnydd gwych wrth frechu pobl ifanc 12-17 oed, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf oherwydd cyflyrau iechyd isorweddol. Erbyn hyn, caiff brechlyn atgyfnerthu ei gynnig i'r unigolion hyn.

Byddem yn annog y rhai nad ydynt wedi dod ymlaen eto, efallai am eu bod wedi cael COVID-19, i fynd i wefan eu bwrdd iechyd i gael rhagor o wybodaeth.

Mae byrddau iechyd yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael gwybodaeth ddibynadwy er mwyn iddynt allu gwneud dewis hyddysg. Er enghraifft:

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymgysylltu â nyrsys ysgol a swyddogion ieuenctid er mwyn helpu i roi gwybodaeth a chyngor ffeithiol i blant a phobl ifanc.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cynnal sesiynau 'Holi ac Ateb' gyda staff a disgyblion mewn ysgolion uwchradd er mwyn helpu i ddarparu gwybodaeth ffeithiol er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.
- Mewn llawer o ardaloedd bwrdd iechyd ceir clinigau galw i mewn lle nad oes angen apwyntiad ac mae clinigau brechu plant a phobl ifanc dros dro yn cael eu cynnal ledled Cymru, er enghraifft i fyfyrwyr ym Mhrifysgol De Cymru lle y gallant ddod ag unrhyw aelod cymwys o'r teulu gyda nhw.

Yn achos plant iau, mae mwy na chwarter y plant 5-11 oed sy'n agored i niwed yn glinigol neu sy'n byw gyda rhywun sydd â system imiwnedd wan, eisoes wedi dod ymlaen i gael eu dos cyntaf o'r brechlyn.

Derbyniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyngor y JCVI y dylid cynnig y brechlyn i bob plentyn 5-11 oed. Argymhellodd y Pwyllgor gwrs o ddau ddos, gyda bwlch o 12 wythnos o leiaf rhwng brechiadau ac y dylai'r rhaglen gael ei chynllunio a'i chyflwyno fel cynnig llai brys, na fydd yn disodli'r gwaith o gyflwyno rhaglenni imiwneiddio pediatrig eraill, pa un a ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 ai peidio.

Rhaid rhoi'r cyfle i blant mor ifanc â hyn gael rhiant neu warcheidwad gyda nhw tra byddant yn cael eu brechu ac mae'r ffaith nad yw'r cyngor yn cynnwys blaenoriaethu unrhyw oedrannau penodol yn ei gwneud yn haws i frodyr a chwiorydd cymwys gael eu brechu ar yr un pryd.

Mae GIG Cymru eisoes wedi dechrau cyflwyno'r rhaglen hon i frechwyr hyfforddedig pediatrig diogel a chanolfannau brechu sy'n ystyriol o blant. Mae byrddau iechyd yn adeiladu ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu o frechu plant 5-11 oed sy'n wynebu risg yn glinigol a phobl ifanc 12-15 oed ac maent yn ystyried yn ofalus sut i sicrhau tegwch o'r cychwyn cyntaf. Mae plant wedi colli cryn dipyn o amser dysgu yn ystod y pandemig ac, er mwyn sicrhau na fydd

y rhaglen frechu yn amharu ymhellach ar addysg plant yn ddiangen, ni fwriedir brechu mewn ysgolion.

Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod y canllawiau imiwneiddio a chanllawiau clinigol angenrheidiol ar gael, a bod gwybodaeth ffeithiol a dibynadwy ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru i blant a rhieni ei hystyried wrth wneud eu penderfyniad. Nid yw'r brechlyn yn orfodol a gall teuluoedd ddewis p'un a ddylid cael y brechlyn ai peidio. Byddem yn annog teuluoedd i ddechrau cael sgyrsiau am y cynnig a threulio amser yn ystyried yr wybodaeth cyn penderfynu a ddylent dderbyn y cynnig ai peidio.

Ein nod

- **Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth sy'n briodol i'w hoedran ar gael i blant a phobl ifanc a bod ein dull cyflawni yn parhau i ganolbwyntio ar y plentyn.**

Cymorth Digidol

Gwyddom ei bod yn bwysig bod pobl yn gallu mynd i'w hapwyntiad brechu ar adeg ac mewn lle sy'n addas i'w hamgylchiadau personol ac yn diwallu eu hanghenion. Byddwn bob amser yn gofyn i bobl flaenoriaethu apwyntiadau lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, deallwn nad yw hyn bob amser yn opsiwn ac, felly, rydym yn darparu ffordd o aildrefnu apwyntiadau.

Cafodd ein gwasanaeth negeseuon testun dwy ffordd ar gyfer aildrefnu apwyntiadau ei lansio ym mis Tachwedd. Cafodd ein gwasanaeth aildrefnu apwyntiadau ar-lein ei lansio ym mis Chwefror. Mae'r ddau wasanaeth hyn yn cynnig ffordd gyfleus o aildrefnu apwyntiadau. Bydd byrddau iechyd yn parhau i ddarparu llinellau ffôn er mwyn cefnogi pobl nad ydynt yn cael y neges destun aildrefnu neu na allant ddefnyddio'r gwasanaeth aildrefnu apwyntiadau ar-lein neu nad ydynt yn hyderus ar-lein.

Bwriedir i'r gwasanaeth aildrefnu apwyntiadau ar-lein barhau i weithredu ar ôl i'r pandemig ddod i ben, er mwn cefnogi rhaglenni brechu nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn ddarparu'r gwasanaethau aildrefnu apwyntiadau fel rhan o Ap GIG Cymru, yn fuan ar ôl iddo lansio yn ddiweddarach eleni.

Ein nod

- **Sicrhau bod y broses o gyflwyno'r systemau negeseuon testun dwy ffordd ac ar-lein ar gyfer aildrefnu apwyntiadau yn gwella profiad defnyddwyr a bod ffordd gyfleus i bobl aildrefnu apwyntiadau os bydd angen.**

Pàs COVID

Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno Ap GIG Cymru, a fydd ar gael i'r cyhoedd ei ddefnyddio yn ddiweddarach yn 2022. Bwriedir i weithrediad cychwynnol yr Ap gynnwys y Pàs COVID ar gyfer teithio rhyngwladol. Byddwn yn ystyried datblygu a chynnwys Pàs COVID at ddibenion domestig, i'w ddefnyddio ar sail ddewisol i ddechrau.

Ceir rhagor o wybodaeth yn: Cael eich pàs COVID y GIG | LLYW.CYMRU

Ein nod

- **Byddwn yn datblygu AP GIG Cymru.**

- **Byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau y gall pobl gael gafael ar eu cofnodion brechu personol mewn ffordd ddiogel, sy'n galluogi pobl i deithio dramor yn unol â safonau rhyngwladol y cytunwyd arnynt.**

Cyflenwad

Yn amodol ar barhad y cyflenwad o frechlynnau COVID-19, byddwn yn sicrhau bod digon o fformiwleiddiad brechlyn priodol ar gael ar gyfer prif ddosau i blant a phobl ifanc 5 i 17 oed, unrhyw ail ddosau sydd heb eu rhoi eto, ar gyfer trydydd prif ddosau a dosau atgyfnerthu, ac i frechu unrhyw un nad yw wedi derbyn y cynnig o gael brechiad.

Ein nod

- **Byddwn yn parhau i sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosibl gan sicrhau bod ein rhaglen mor effeithlon â phosibl a'n bod yn defnyddio pob dos o frechlyn sydd ar gael.**

ADRAN 4. Ein blaenoriaethau ar gyfer y tymor hwy

Wrth inni symud yn ofalus i ffwrdd o sefyllfa argyfwng pandemig tuag at adeg pan ddaw'r coronafeirws yn endemig, rhaid inni hefyd edrych ar y ffordd y darperir ein gwasanaethau brechu yn gyffredinol, gan ddysgu o'n profiad yn ystod y pandemig a sicrhau bod ein gwasanaethau yn addas at y diben ac ar gyfer y dyfodol.

Disgwylir bellach i raglen brechu COVID-19, fel gyda'r pigiad ffliw, ddod yn rhaglen reolaidd. Wrth gynllunio ar gyfer darpariaeth fwy sefydlog, er mwyn parhau i ddiogelu'r cyhoedd, rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd i gynllunio ar gyfer rhai o'r senarios mwyaf tebygol yn y gwanwyn ac ar ôl hynny yn ystod hydref a gaeaf 2022-23. Bydd angen diogelu'r bobl hynaf a mwyaf agored i niwed yng Nghymru ymhellach. Y gaeaf yw'r tymor pan fo'r bygythiad gan COVID-19 ar ei fwyaf i unigolion a chymunedau iechyd o hyd ac, at ddibenion cynllunio ar gyfer y tymor hwy, mae'r JCVI hefyd wedi nodi y bydd rhaglen frechu yn ystod hydref 2022 ar gyfer pobl sy'n wynebu risg uwch o gael salwch difrifol o ganlyniad i COVID-19, megis pobl hŷn a'r rhai mewn grwpiau risg clinigol. Darperir union fanylion rhaglen hydref yn nes ymlaen.

Rydym hefyd yn cadw'r angen i gynyddu capasiti ymchwydd os bydd angen inni ymateb i don pandemig newydd, neu achosion o amrywiolyn newydd, ond yn gobeithio na fydd angen y capasiti hwn fyth eto.

Yn y tymor hwy, rydym yn edrych ar bob un o'n rhaglenni brechu ac yn ystyried yr hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod y pandemig ac a ellir cymhwyso hyn at raglenni brechu eraill. Mae ein rhaglen brechu COVID-19 wedi bod yn un o'r rhai mwyaf blaenllaw yn y byd. Ein nod yw sicrhau bod pob un o'n rhaglenni brechu ymhlith y gorau yn y byd.

Mae ein gwasanaethau brechu presennol yn hanfodol i'n diogelu rhag clefydau, gan gynnwys clefydau sy'n peryglu bywyd yn y blynyddoedd cynnar ac yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae ein gwasanaethau brechu yn effeithiol ond mae lle i wella bob amser a bydd y gwersi a nodwyd drwy raglen brechu COVID-19 yn helpu. Er enghraifft, cynyddu cyfradd frechu a thegwch darpariaeth rhai o'n brechlynnau sydd wedi'u hanelu at y rhai mwyaf oedrannau ac agored i niwed. Yn yr un modd, mae gwersi y gall ein rhaglen COVID-19 eu dysgu o'n rhaglenni presennol hefyd.

Dyma'r broses y byddwn yn ei dilyn nawr gyda'r nod o sefydlu Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol i Gymru fydd yn addas i'r dyfodol.

Bydd rhai o amcanion allweddol y fframwaith yn cyd-fynd yn agos iawn â'r rhai sydd wedi bod yn bwysig ac yn effeithiol yn ystod y pandemig, gan gynnwys:

1. Mynediad a chyfle cyfartal
2. Cyfraddau brechu uchel
3. Cyfraddau marwolaethau ac afiachedd is oherwydd clefydau y gellir eu hatal drwy frechlynnau
4. Gwasanaeth sy'n glir, lle mae dinasyddion yn gwybod pa frechlynnau y maent yn gymwys i'w cael a ble i fynd i'w cael
5. Gwella profiad defnyddwyr, gan gynnwys drwy atebion digidol
6. Defnydd effeithiol o'r gwasanaeth, sy'n seiliedig ar werthoedd ac yn sicrhau 'elw ar fuddsoddiad'
7. Trefniadau caffael cenedlaethol, sy'n cefnogi dull “unwaith i Gymru” ac yn sicrhau gwerth am arian

8. Parodrwydd ar gyfer pandemig, er mwyn sicrhau y gallwn ymateb yn effeithiol i fygythiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y dyfodol
9. Seilwaith a threfniadau llywodraethu cenedlaethol sy'n addas at y diben.

Mae gwaith i gynllunio a datblygu'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol yn mynd rhagddo'n gyflym ac fel rhan o ystyriaethau ehangach wrth i ni symud y tu hwnt i'r ymateb i argyfwng y coronafeirws. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth mewn diweddariadau dilynol.

ADRAN 5: Cael yr wybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth ddibynadwy

Mae'n bwysig bod pobl yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth gywir a dibynadwy am y brechlyn. Rydym yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a GIG Cymru i sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael yn hawdd, wedi'i theilwra yn ôl oedran ac amgylchiadau. Mae'n hanfodol bod pobl yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am effeithiau'r brechlyn, a ydynt yn gymwys i'w gael, a sut i gael y brechiad pan gânt eu galw.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wybodaeth i gleifion a chwestiynau cyffredin defnyddiol am y brechlyn a diogelwch.

Mae hefyd wedi cyhoeddi canllaw ar bwy sy'n gymwys i gael y brechlyn, gan gynnwys y bwlch rhwng dosau.

Mae gennym fodel cyflenwi cyfunol a gall lleoliadau canolfannau brechu newid: bydd rhai byrddau iechyd yn defnyddio canolfannau mwy lleol yn hytrach na chanolfannau mwy o faint. Bydd gan fyrddau iechyd yr wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau lleol ar eu gwefannau a'u cyfryngau cymdeithasol er mwyn i bobl wybod ble a sut i gael y brechiad sy'n cael ei gynnig iddynt.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i fod yn dryloyw a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am gynnydd. Byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

Cyhoeddi data ar nifer y bobl sydd wedi cael brechiadau. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ar **ddangosfwrdd Gwyliadwriaeth Gyflym COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru*.** Bydd hwn yn dangos cyfanswm y brechiadau a roddir, er y bydd nifer gwirioneddol y bobl a frechwyd yn uwch oherwydd bod data'n cael ei ychwanegu'n barhaus[4].

Parhau i **gyhoeddi data wythnosol a manylach am frechu** drwy ddangosfwrdd Gwyliadwriaeth Gyflym COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn cynnwys data ar lefel byrddau iechyd lleol a chaiff ei ehangu i ymdrin â phynciau eraill wrth i ragor o ddata o ansawdd da fod ar gael, er enghraifft y nifer sy'n manteisio ar y brechiad yn ôl carfannau.

Cyhoeddi **data ar gyflenwadau a stociau o frechlynnau** yng Nghymru, gan gynnwys gwastraff https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad

Cyhoeddi **Datganiadau Gweinidogol** yn amlinellu unrhyw ddatblygiadau yn y rhaglen frechu neu newidiadau iddi.

Cyhoeddi **Diweddariadau Brechu** bob pythefnos https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-diweddariadau

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

Adroddiadau ar y sefyllfa o ran COVID-19 https://llyw.cymru/adroddiadau-sefyllfaol-covid-19

Cyngor gan y Gell Cyngor Technegol https://llyw.cymru/y-gell-cyngor-technegol

Adroddiadau ystadegol ar COVID-19 https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Mae dangosfwrdd y DU yn cynnwys data gan bob un o'r Pedair Gwlad www.coronavirus.data.gov.uk/details/vaccinations

Blog y Prif Ystadegydd

https://digidoladata.blog.llyw.cymru/

[4] Rapid COVID-19 virology - Public | Tableau Public

Atodiad A

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r grwpiau sydd â hawl i gael eu brechu a phryd y bydd y brechiadau hynny ar gael.

Pwy	Mae'r cynigion yn dechrau o	Gwybodaeth Ychwanegol
Pawb sy'n gymwys nad ydynt wedi manteisio ar eu cynnig hyd yma	Unrhyw bryd	Mae hwn yn gynnig parhaus i unrhyw un sy'n gymwys nad yw wedi cael y 1af, 2il, 3ydd (os ydynt wedi'u himiwnio'n ddifrifol) neu ddos atgyfnerthu
Dos atgyfnerthu ar gyfer imiwnedd difrifol (4ydd dos)	Ionawr 2022	Cynnig o leiaf dri mis ar ôl 3ydd dos
Y dos cyntaf ar gyfer mewn perygl clinigol a/neu gysylltiadau cartref unigolion sydd ag imiwnedd 5-11 oed	Ionawr 2022	Cynnig ail ddos 12 wythnos ar ôl dos 1af
Dos atgyfnerthu ar gyfer mewn perygl clinigol a /neu gysylltiadau cartref unigolion sydd ag imiwnedd, 12-15 oed	Ionawr 2022	Cynnig o leiaf 3 mis ar ôl ail ddos
Dos atgyfnerthu ar gyfer pob plentyn 16 ac 17 oed	Chwefror 2022	Cynnig o leiaf dri mis ar ôl ail ddos
Y dos cyntaf ar gyfer plant 5-11 oed heb unrhyw gyflyrau iechyd sylfaenol	Mawrth 2022	Cynnig ail ddos 12 wythnos ar ôl dos 1af
Ail hwb i breswylwyr cartrefi gofal i bobl hŷn, pobl dros 75 oed a thros 16 oed sydd ag imiwnedd difrifol	Mawrth 2022	Cynnig o leiaf 6 mis ar ôl dos atgyfnerthu